
Hawdd ei Ddeall

GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# Gweld pa mor hawdd ydy Proffil Iechyd Unwaith i Gymru i'w ddefnyddio

## Adroddiad gan Brifysgol De Cymru




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan yr Athro Ruth Northway, Dr Edward Oloidi, Ms Autumn Bevan, Dr Stacey Rees, o Brifysgol De Cymru.

Dyma ddogfen hawdd ei deall o '**Gwerthuso defnyddioldeb Proffil Iechyd Unwaith i Gymru – Crynodeb Gweithredo**'.

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r adroddiad yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl yr **Uned ar gyfer Datblygu mewn Anableddau Deallusol a Datblygiadol (UDIDD)** ym **Mhrifysgol De Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**

www.udidd.research.southwales.ac.uk/udid-cy/

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am yr adroddiad yma .......... 4

Sut rydyn ni wedi cael adborth .......... 8

Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni .......... 9

Ein prif ganfyddiadau .......... 18

Ffyrdd mae'r Proffil Iechyd yn gallu bod yn well .......... 20

Geiriau anodd .......... 22

# Am yr adroddiad yma

Ni ydy'r **Uned ar gyfer Datblygu mewn Anableddau Deallusol a Datblygiadol (UDIDD)** ym **Mhrifysgol De Cymru**.

Yn 2022, fe wnaeth **Gwelliant Cymru** ofyn i ni edrych i weld pa mor hawdd ydy **Proffil Iechyd Unwaith i Gymru** i'w ddefnyddio. Yn yr adroddiad yma rydyn ni yn rhannu beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ac yn awgrymu ffyrdd o'i wella.

## Cefndir



Mae pobl ag anabledd dysgu yn gallu ei chael hi'n anodd cael y gofal iechyd cywir. Un broblem fawr ydy cyfathrebu.




I helpu, roedd dogfennau fel **pasbortau cyfathrebu** a **phasbortau ysbyty**. Roedd gan y rhain wybodaeth bwysig i weithwyr iechyd.



Pan fyddwn ni yn dweud gweithwyr iechyd, rydyn ni yn meddwl meddygon, nyrsys a staff iechyd eraill.



Fe wnaethon ni edrych ar 60 o’r dogfennau yma a gweld eu bod i gyd yn wahanol iawn o ran sut roeddwn nhw’n edrych, ei hyd a beth oedd ynddyn nhw. Doedd hyn ddim yn ddiogel oherwydd efallai na fyddai gweithwyr iechyd yn gwybod beth ydyn nhw na sut i’w defnyddio.



Efallai nad ydy’r wybodaeth bwysig yn hawdd i’r gweithwyr iechyd ddod o hyd iddi. Fe ddylai fod 1 math o ddogfen y mae pawb yn ei defnyddio.




Yn 2019, fe wnaeth **Gwelliant Cymru** ofyn i ni greu 1 ddogfen i bawb yng Nghymru ei defnyddio. Fe wnaethon ni’r Proffil Iechyd Unwaith i Gymru.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr, a gweithwyr iechyd i’n helpu i wneud y Proffil Iechyd.




Fe wnaeth y Proffil Iechyd gael ei lansio yn 2020. 1 ar gyfer oedolion ac 1 ar gyfer plant.




Rydyn ni wedi gwneud canllawiau i helpu pobl i'w llenwi.




Mae'r Proffil Iechyd yn 4 tudalen o hyd.



Fe wnaethon ni ei ddiweddaru i fod yn haws i'w ddefnyddio a'i gwblhau ar-lein.

# Ein nodau ar gyfer yr adroddiad yma




Roedden ni eisiau darganfod pa mor hawdd ydy **Proffil Iechyd Unwaith i Gymru** i’w ddefnyddio drwy gael adborth gan:



- Pobl ag anabledd dysgu.



- Teulu, ffrindiau a staff gofal, sy’n helpu pobl i’w lenwi.



- Gweithwyr iechyd sy’n ei ddefnyddio i ddarparu gofal.

# Sut rydyn ni wedi cael adborth

Rydyn ni wedi defnyddio 2 ffordd:



1. Fe wnaethon ni ofyn i 20 o bobl ag anabledd dysgu am eu profiadau gyda'r Proffil Iechyd.




2. Fe wnaethon ni anfon arolygon ar-lein at deuluoedd, gofalwyr cyflogedig, a gweithwyr iechyd.



Rydyn ni wedi cael 24 o ymatebion gan deuluoedd a gofalwyr cyflogedig.



Rydyn ni wedi cael 58 o ymatebion gan weithwyr iechyd.



Fe wnaethon ni edrych ar y nodiadau cyfweld a'r atebion arolwg i weld beth oedd pobl yn siarad amdano fwyaf.

# Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni

## Pobl ag anabledd dysgu



Roedd pobl ag anabledd dysgu yn gwybod gwahanol bethau am y Proffil Iechyd. Roedd rhai yn ei llenwi ar eu pennau eu hunain. Mae eraill wedi cael help.



Doedd dim llawer yn gwybod am y canllaw sydd yn gallu eich helpu i lenwi'r Proffil Iechyd. Roedd y canllaw wedi helpu y rhai oedd wedi ei ddefnyddio.



Roedd y Proffil Iechyd yn ddefnyddiol ar gyfer ymweliadau ysbyty. A llefydd eraill fel meddygon teulu a deintyddion.




Roedd pobl yn dweud ei fod yn dda gan nad oes rhaid iddyn nhw ailadrodd yr un wybodaeth.




Roedd pobl yn dweud ei fod yn bwysig ar gyfer argyfwng a diogelwch.




Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud bod ei hyd a'i fformat yn iawn.



Roedd rhai pobl yn dweud y byddai cael fersiwn ar-lein o'r Proffil Iechyd yn ddefnyddiol. Ond fe ddylen ni gadw fersiwn bapur oherwydd dydy pawb ddim yn gallu ei llenwi ar-lein.




Roedd rhai pobl yn meddwl bod ychwanegu mwy o luniau ac adrannau ychwanegol yn gallu bod yn ddefnyddiol. Ond fe fyddai hyn yn gwneud y ddogfen yn hirach. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai aros ar 4 tudalen.



Eich Proffil Iechyd chi ydy e. Mae'r wybodaeth amdanoch chi. Roedd rhai pobl yn meddwl mai eu dogfen nhw oedd hi. Roedd eraill yn meddwl ei fod yn fwy i helpu staff.



Roedd rhai yn poeni am gael help i ddiweddaru'r Proffil Iechyd pan fo angen.



Roedd yn bryderus mai dim ond 1 person oedd yn dweud bod gweithwyr iechyd wedi defnyddio eu Proffil Iechyd i arwain eu gofal.



Roedd rhaid i'r rhan fwyaf o bobl gynnig eu Proffil Iechyd eu hunain. Hyd yn oed wedyn, doedd staff ddim yn ei ddarllen na'i ddefnyddio bob amser.



Roedd pobl yn teimlo bod angen i fwy o bobl wybod am y Proffil Iechyd a'i ddefnyddio.

## Teulu a Gofalwyr



Roedd adborth gan grwpiau teulu ar gyfryngau cymdeithasol yn dangos nad oedd llawer o deuluoedd yn gwybod am y Proffil Iechyd.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud fod y Proffil Iechyd yn hawdd i'w gwblhau.




Roedd llai na hanner wedi defnyddio'r canllaw wrth lenwi'r Proffil Iechyd.




Roedd y rhai oedd wedi ei ddefnyddio yn ei gael yn ddefnyddiol.



Roedd pobl yn defnyddio'r Proffil Iechyd mewn sawl lle. Roedden nhw yn ei ddefnyddio fwyaf ar gyfer ymweliadau ysbyty brys ac ymweliadau wedi'u cynllunio.



Roedd pobl hefyd yn ei ddefnyddio mewn canolfannau anabledd dysgu ac iechyd meddwl, meddygon teulu, optegwyr a fferyllfeydd.



Roedd hanner y bobl yn dweud fod gweithwyr iechyd yn darllen y Proffil Iechyd pan oedd yn cael ei roi iddyn nhw.



Roedd 1 o bob 4 o'r rhain yn dweud nad oedd gweithwyr iechyd yn ei ddefnyddio i gynllunio gofal. Roedd angen atgoffa'r staff i'w ddarllen.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud bod eu profiad o ddefnyddio'r Proffil Iechyd yn dda iawn.



Roedd pobl yn hoffi bod y Proffil Iechyd yn helpu i ddarparu gofal sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn**.

Mae **canolbwyntio ar yr unigolyn** yn meddwl canolbwyntio ar beth mae pob person ei eisiau a'i angen.




Roedden nhw hefyd yn meddwl bod ei hyd a'i olwg yn iawn.




Roedd rhai yn dweud nad ydy e'n cael ei ddefnyddio'n llawn ac yn aml does gan staff iechyd ddim amser i'w ddarllen.




Mae rhai pobl yn credu bod ganddo lai o wybodaeth na fersiynau cynharach.



Roedd rhai yn dweud bod cadw'r feddyginiaeth yn rhan bwysig iawn.

## Gweithwyr iechyd




Roedd y rhan fwyaf o weithwyr iechyd yn dweud bod pobl ag anabledd dysgu roedden nhw yn gofalu amdanyn nhw wedi rhoi Proffil Iechyd iddyn nhw.



Pan roedden nhw wedi helpu rhywun i gwblhau Proffil Iechyd, roedd yn hawdd ei wneud.




Mae canllaw i weithwyr iechyd ar sut i ddefnyddio'r Proffil Iechyd.



Roedd y rhan fwyaf yn gwybod amdano, ond doedd tua 1 o bob 3 dim yn ei ddefnyddio neu ddim yn gwybod amdano.



Roedd gweithwyr iechyd yn defnyddio'r Proffil Iechyd mewn sawl ffordd:


- darparu gofal sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn**



- rhannu hanes meddygol ac alergeddau



- deall anghenion cyfathrebu



- newidiadau i gyflwr person



- sicrhau diogelwch cleifion




- gwneud **addasiadau rhesymol**.

  **Addasiadau rhesymol** ydy newidiadau sydd yn cael eu gwneud i wneud pethau'n haws i rywun.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud bod eu profiad gyda'r ddogfen yn dda iawn. Roedden nhw'n dweud bod y llun yn ddefnyddiol. Roedd gan bobl syniadau cymysg ar hyd y ddogfen.




Roedd rhai yn credu y byddai ychwanegu adrannau ychwanegol yn ddefnyddiol. Fe fyddai hyn yr un fath â'r Pasbortau Iechyd blaenorol. Fe fyddai hyn yn gwneud y Proffil Iechyd yn hirach. Roedd eraill yn meddwl bod y Proffil presennol yn hir.



Roedd rhai pobl yn poeni nad oes gan bawb ag anabledd dysgu Broffil Iechyd. Maen nhw'n dweud bod angen i fwy o bobl wybod amdanyn nhw a'u defnyddio.



Roedd rhai yn dweud y byddai fersiwn ar-lein yn ddefnyddiol.



Roedd rhai yn dweud ei bod yn bwysig dod o hyd i ffyrdd gwell o ddiweddaru gwybodaeth am feddyginiaethau. Roedd pobl yn dweud eu bod yn ychwanegu dolenni o'r Proffil Iechyd at y dogfennau canllaw.

# Ein prif ganfyddiadau



Er nad oedd yr adolygiad yn fawr, fe wnaethon ni siarad â llawer o wahanol bobl.




Roedd 3 maes pwysig:

## 1. Mae'r Proffil Iechyd yn helpu



Mae'n cefnogi gofal diogel sydd yn **canolbwyntio ar yr unigolyn** pan mae'n cael ei ddefnyddio'n gywir.



Mae'n helpu gweithwyr iechyd i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac yn gwella cyfathrebu.



Mae angen i fwy o bobl, gan gynnwys teuluoedd, wybod am y Proffil Iechyd a'i ganllawiau a'u defnyddio.

## 2.Hyd a chynnwys yn iawn



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod hyd a chynnwys y Proffil Iechyd yn iawn. Mae rhai pobl eisiau fersiwn ar-lein hefyd.



Mae rhai eisiau adrannau ychwanegol i ychwanegu mwy o fanylion. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu y dylai aros ar 4 tudalen.

## 3.Diweddaru yn aml



Mae angen i bawb ddiweddaru'r Proffil Iechyd.



Mae hyn yn bwysig os bydd meddyginiaeth yn newid. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r ffordd orau o wneud hyn.

# Ffyrdd mae'r Proffil Iechyd yn gallu bod yn well



## Codi ymwybyddiaeth

Dweud wrth fwy o bobl, yn enwedig teuluoedd, am y Proffil Iechyd a'r canllawiau.



## Ei ddefnyddio fel yr hen Adran Goch

Annog pobl i ddefnyddio'r Proffil Iechyd fel yr adran goch mewn hen basbortau ysbyty golau traffig. Ychwanegu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall.



## Helpu gweithwyr iechyd

Gwneud yn siŵr bod gweithwyr iechyd yn gwybod sut mae'r Proffil Iechyd yn gallu eu helpu. Fe ddylen nhw ofyn am y Proffil Iechyd a'i ddefnyddio i ddarparu gofal gwell a diogelwch cleifion.

## Ychwanegu cod QR




Rhoi cod QR a dolen ar y Proffil Iechyd sy'n mynd i'r dogfennau canllaw. Mae cod QR yn sgwâr rydych chi'n gallu ei sganio gyda ffôn, ac mae'n mynd i dudalen we.



## Creu fersiwn ar-lein

Gwneud fersiwn ar-lein i fynd gyda'r un papur.



## Cefnogi diweddaru rheolaidd

Dod o hyd i ffyrdd i helpu i ddiweddaru'r Proffil Iechyd.

# Geiriau anodd

## Addasiadau rhesymol

Addasiadau rhesymol ydy newidiadau sy'n cael eu gwneud i wneud pethau'n haws i rywun.

## Canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn meddwl canolbwyntio ar beth mae pob person ei eisiau a'i angen.